Hawdd ei Ddeall

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Eich canllaw i'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Taflen Ffeithiau Hawdd ei Ddeall 5: Ateb eich anghenion

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Llywio Gwasanaethau Cymdeithasol Taflen Ffeithiau 5: Ateb eich anghenion**.'

Mawrth 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Mae geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 23**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Ebost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Ffôn: 03442 640 670

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd i'w deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif Trwydded Photosymbols yw 403527247

Cynnwys

Tudalen

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.....4

Gofalu am eich anghenion gofal a chymorth.....6

Gofal yn eich cartref eich hun.....10

Byw mewn cartref gofal.....11

Taliadau uniongyrchol.....14

Eich cynllun gofal a chymorth.....18

Os ydych chi yn symud i awdurdod lleol newydd.....22

Geiriau anodd.....23

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** yn gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ar draws Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn sicrhau bod pobl hŷn:

- yn gallu rhannu beth maen nhw'n feddwl
- cael dewis a rheolaeth
- peidio â theimlo'n unig
- cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau maen nhw eu hangen .
- dim **gwahaniaethu** yn eu herbyn.

Mae **gwahaniaethu** yn meddwl pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oedran, rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Mae'r **Comisiynydd** a'i thîm yn gweithio i wneud Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn ynddo.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

Ebost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @talkolderpeople

Gofalu am eich anghenion gofal a chymorth

Rhaid i'ch awdurdod lleol ofalu am eich anghenion gofal a chymorth.

Rhaid i'ch awdurdod lleol ofalu am eich anghenion cymorth gofalwyr.

Mae hyn yn gallu cynnwys:

- Darparu gwasanaeth i chi.
- Trefnu i berson arall neu sefydliad ddarparu gwasanaeth i chi.
- Cefnogi eich gofalwr i ofalu am eich anghenion.

Mae awdurdodau lleol yn gallu darparu llawer o wasanaethau i chi. Dyma rai enghreifftiau:

- Gofal a chefnogaeth gartref.

- Dod o hyd i gartref gofal.

- Cwnsela ac **eiriolaeth.**

Eiriolaeth ydy pan mae rhywun yn eich helpu chi ac yn siarad drosoch chi i ddweud beth rydych chi eisiau ei ddweud. A gwneud i bethau ddigwydd.

- **Addasiadau i'r cartref** - Mae hyn yn meddwl gwneud newidiadau i'ch cartref er mwyn ei gwneud hi'n fwy diogel ac yn haws symud o gwmpas.

- Gwybodaeth a chyngor.

Os ydy eich gofalwr wedi cytuno i gymryd gofal o'ch anghenion, fydd eich awdurdod lleol ddim yn darparu ar gyfer y gwasanaethau hynny.

Dim ond y gwasanaethau dydy eich gofalwr ddim yn eu darparu y byddan nhw yn eu darparu.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud yn siŵr:

- Bod eich gofalwr eisiau darparu gofal a chymorth i chi.

- Bod eich gofalwr yn gallu darparu gofal a chymorth i chi.

Mae eich gofalwyr yn gallu gofyn i'ch awdurdod lleol i ofalu am eich anghenion cymorth.

Efallai y bydd eich awdurdod lleol yn cytuno i wneud hyn. Ond maen nhw'n gallu dweud na yn ôl y gyfraith. Am fwy o wybodaeth darllenwch www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/45

Am fwy o wybodaeth edrychwch ar: Adran 34 o'r Ddeddf a Rhan 4 o'r Cod Ymarfer.

Gofal yn eich cartref eich hun

Rhaid i'ch awdurdod lleol wneud yn siŵr bod gofalwyr yn treulio digon o amser i'ch cefnogi yn eich cartref. Am bethau fel:

- paratoi prydau bwyd
- glanhau a golchi dillad

- ymolchi
- eich gofal personol
- rhoi meddyginiaethau.

Am fwy o wybodaeth edrychwch ar: Adran 34 o'r Ddeddf a Rhan 4 o'r Cod Ymarfer.

Byw mewn cartref gofal

Mae gennych chi hawl i ddewis eich cartref gofal.

Rhaid i'ch awdurdod lleol drefnu'r cartref gofal o'ch dewis chi.

Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr:

- Bod y cartref gofal yn gallu gofalu am eich anghenion gofal a chymorth sydd yn cael eu rhestru yn eich Gynllun Gofal a Chymorth.



- Bod y cartref gofal o'ch dewis chi yn gallu gofalu am eich anghenion gofal a chymorth sydd yn cael eu rhestru yn eich Gynllun Gofal a Chymorth.

- Bod y cartref gofal rydych chi'n ei ddewis ar gael.

- Os nad ydy'r cartref rydych chi'n dewis aros ynddo wedi ei drefnu gan eich awdurdod lleol, mae'r darparwr cartref yn cytuno â rheolau eich awdurdod lleol.

Os ydy cost eich cartref gofal yn fwy na beth fyddai eich awdurdod lleol yn talu amdano, rhaid iddyn nhw barhau i drefnu ar gyfer eich dewis o gartref gofal.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm y byddai eich awdurdod lleol yn talu amdano a gwir gost eich cartref gofal rydych chi wedi ei ddewis yn cael ei alw yn **gost ychwanegol**.

Fe fydd rhaid i rywun dalu am y **gost ychwanegol**.

Ni ddylid defnyddio'r **gost ychwanegol** i dalu am eich anghenion gofal a chymorth.

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar: Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis Llety) (Cymru) 2015.

Taliadau uniongyrchol

Mae **taliad uniongyrchol** yn arian rydych chi'n gallu ei dderbyn yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cymorth a'ch gwasanaethau eich hun.

Mae **taliadau uniongyrchol** yn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl.

Rydych chi'n gallu cael **taliadau uniongyrchol** i dalu am eich anghenion gofal a chymorth. Neu anghenion cymorth eich gofalwyr.

Dim ond os:

- Mae'r taliad yn cael ei wneud i chi, ac rydych yn cytuno i gael taliadau uniongyrchol.

- Rydych chi'n gallu gwneud penderfyniadau drosoch eich hun.

- Mae eich awdurdod lleol yn meddwl ei fod yn syniad da.

- Rydych chi'n gallu rheoli'r taliadau ar eich pen eich hun neu gyda help gan berson neu sefydliad.

Os nad ydych chi yn gallu deall gwybodaeth am benderfyniad. Neu yn methu cyfathrebu eich penderfyniad:

- Mae'n rhaid cael rhywun sy'n gallu gweithredu ar eich rhan a gwneud beth sy'n iawn i chi.

- Mae'n rhaid i'r person sy'n gwneud penderfyniadau ar eich rhan gytuno i ddefnyddio taliadau uniongyrchol.

- Rhaid i'ch awdurdod lleol gytuno a meddwl ei fod yn syniad da.

- Rhaid i'r person gael eich caniatâd i allu cael **taliadau uniongyrcho**l ar eich rhan.

Dydy eich awdurdod lleol ddim yn gallu eich rhwystro rhag cael **taliadau uniongyrchol** am nad ydych chi yn gallu rheoli eich taliadau.

Rhaid iddyn nhw ddod o hyd i opsiynau eraill i'ch cefnogi chi i reoli eich **taliadau uniongyrchol**.

Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar: Adran 50 o'r Ddeddf, Rheoliadau Gofal a Chefnogaeth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015, Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (Anghenion Cyfarfod).

Eich cynllun gofal a chymorth

Mae **cynlluniau gofal a chymorth** ar gyfer unrhyw un sydd angen gofal neu sy'n gofalu am rywun arall.

Mae gennych hawl i asesiad i weld ydych chi angen cynllun gofal a chymorth.

Asesiad ydy'r broses rydych chi'n mynd drwyddo gyda'ch awdurdod lleol i weld ydych chi angen gofal a chymorth. Pa ofal a chymorth rydych chi ei angen. A sut rydych chi'n cael hynny.

Weithiau, mae eich awdurdod lleol yn gallu rhoi **cynllun gofal a chymorth** i chi os ydyn nhw'n credu eich bod mewn perygl o **gamdriniaeth** neu **esgeulustod.**

Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu chi neu yn eich trin yn wael. Mae llawer o wahanol fathau o **gamdriniaeth**.

Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn iawn. Math o **gamdriniaeth** ydy esgeulustod.

Mae gennych chi hawl i fod yn rhan o'r broses o wneud, edrych ar, a diweddaru eich **cynllun gofal a chymorth**.

Os ydy pethau wedi newid i chi, rhaid i'ch awdurdod lleol wneud **asesiad** arall. A diweddaru'r cynllun os oes angen.

Mae **cynllun gofal a chymorth** yn gallu bod yn 1 gwasanaeth. Neu mae'n gallu bod yn llawer o wahanol wasanaethau.

Mae'n rhaid i **gynllun gofal a chymorth** fod am:

- Eich anghenion.

- Eich nodau personol.

- Pa gamau y mae angen eu cymryd gan yr awdurdod lleol a gan bobl eraill i'ch helpu i gyrraedd eich nod personol.

- Sut i weld os ydych chi wedi cyflawni eich amcanion.



- Sut i edrych ar eich cynllun a phryd.

Os ydych chi yn cael taliadau uniongyrchol, mae'n rhaid i'ch cynllun gofal a chymorth gael manylion am:

- Pa wasanaethau fydd yn cael eu defnyddio drwy **daliadau uniongyrchol.**

- Faint o arian rydych chi yn ei gael. A pa mor aml fyddwch chi'n cael yr arian.

Mae **cynlluniau gofal a chymorth** hefyd yn gallu cynnwys beth ydy gwaith a chyfrifoldebau pawb. Gan gynnwys chi, eich gofalwyr, aelodau o'ch teulu a gweithwyr proffesiynol.

Fe ddylai'r awdurdodau lleol gadw cofnod o unrhyw ymchwiliad sydd wedi ei wneud i weld os ydych chi mewn perygl o **gamdriniaeth** ac **esgeulustod**.

Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar Adran 54 o'r Ddeddf, Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015 a Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (Anghenion Cyfarfod).

Os ydych chi yn symud i awdurdod lleol newydd

Os ydych chi wedi dweud wrth eich awdurdod lleol eich bod yn symud i ardal newydd, mae'n rhaid iddyn nhw roi gwybodaeth newydd i'ch awdurdod lleol am:

- Eich **asesiad.**
- **Eich cynllun gofal a chymorth.**
- Neu gynllun cymorth eich gofalwyr.

Rhaid i'ch awdurdod lleol newydd wneud **asesiad** newydd.

Rhaid i'ch awdurdod lleol newydd ofalu am eich anghenion sydd wedi eu rhestru yn eich **cynllun gofal a chymorth** presennol hyd nes y mae **asesiad** newydd yn cael ei wneud.

Geiriau anodd

Asesiad

Mae asesu yn ffordd o ddarganfod ydy rhywun angen help a chefnogaeth.

Camdriniaeth

Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu chi neu yn eich trin yn wael. Mae llawer o wahanol fathau o gamdriniaeth.

Eiriolaeth

Eiriolaeth ydy pan mae rhywun yn eich helpu ac yn codi llais ar eich rhan i:

• dweud beth rydych chi eisiau ei ddweud

• a gwneud i bethau ddigwydd.

Esgeulustod

Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn iawn. Math o gamdriniaeth ydy esgeulustod.